# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Gwynedd

## Diweddariad Chwarterol: 30 Medi 2022

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022.** | Rhagfyr 2022 | Adroddiad drafft i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2022. |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwilio Datganiadau Cyfrifon y Cyngor a'i Is-bwyllgorau** | Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. | Archwiliad Terfynol: • Mehefin i Hydref 2022 | Daeth Datganiad Cyfrifon Cyngor Gwynedd i law ar 13 Mehefin 2022 ac mae'r gwaith maes archwilio bron â bod yn dod i ben.<br><br>Daeth Ffurflen Flynyddol y Cyd-bwyllgor Polisi Cynllunio i law ar 17 Mehefin 2022. Daeth Ffurflen Flynyddol yr Harbyrau i law ar 25 Mai 2022. Mae'r archwiliadau yma bellach wedi eu cwblhau ond maent yn amodol ar gymeradwyaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. |
| **Archwilio Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd** | Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. | Archwiliad terfynol: • Hydref 2022 hyd at Dachwedd 2022. | Daeth y Datganiadau o’r Cyfrifon i law ar 27 Mehefin 2022 ac mae’r gwaith maes archwilio bron â bod wedi’i orffen. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio Ffurflenni Grant:** Cyfraniadau Pensiwn Athrawon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22 | Ardystio bod y dystysgrif diwedd blwyddyn:<br>• Heb fod wedi'i ddatgan yn deg<br>• Heb fod yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor ar y diwrnod gwaith olaf ym mis Mai 2022. Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2022. | Daeth y ffurflen i law ar 30 Ebrill 2022. Nid yw'r archwiliad wedi dechrau eto. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant:** Ardrethi Annomestig 2021-22 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen:<br>• Heb fod wedi'i ddatgan yn deg<br>• Heb fod yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Mehefin 2022. Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2022. | Daeth y ffurflen i law ar 30 Ebrill 2022. Nid yw'r archwiliad wedi dechrau eto. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant:** Cymhorthdal Budd-dal Tai 2021-22 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen:<br>• Heb fod wedi'i ddatgan yn deg<br>• Heb fod yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Ebrill 2022. Dyddiad cau ardystio 31 Ionawr 2023. | Daeth y ffurflen i law ar 27 Ebrill 2022. Nid yw'r archwiliad wedi dechrau eto. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith archwilio perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd as Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.<br>Yng Nghyngor Gwynedd mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:<br>• Sefyllfa ariannol<br>• Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)<br>• Cynlluniau i leihau carbon | Ebrill 2021 i Hydref 2022 | Ym mynd rhagddo |

| **Gwaith archwilio perfformiad 2022-23** | **Cwmpas** | **Amserlen** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd as Asesu Risg** | Prosiect i ganfod lefel sicrwydd archwilio a/neu lle bo angen gwaith archwilio ychwanegol yn ystod y blynyddoedd i'w dod o ran y risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.<br>Mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio'n benodol ar:<br>• Sefyllfa ariannol<br>• Rheoli rhaglenni cyfalaf<br>• Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau.<br>• Pennu amcanion llesiant | Ebrill 2022 i Orffennaf 2023 | Ym mynd rhagddo |

| Gwaith archwilio perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad Thematig – Gofal heb ei Gynllunio** | Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i fod o gymorth i ryddhau cleifion, yn ogystal ag atal mynd i mewn i'r ysbyty. Bydd y gwaith yn ystyried hefyd pa gamau a gymerir i ddarparu datrysiadau tymor canol i hir. | Awst 2022 – Chwefror 2023 | Gwaith maes |
| **Adolygiad thematig – Digidol** | Mae'r prosiect hwn yn cael ei gwmpasu ac mae manylion ychwanegol am bwyslais penodol yr adolygiad i'w cadarnhau. | I'w gadarnhau. | Cwmpasu |
| **Adolygu Effeithiolrwydd Craffu** | Bydd yr adolygiad hwn yn gofyn y cwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer craffu mewn pwyllgorau cyhoeddus? | Hydref 2022 – Mawrth 2023 | Cwmpasu |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi eu cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Tlodi** | Deall sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i leihau tlodi. | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Clirio – cyhoeddi Hydref 2022. | Oes – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |
| **Mentrau Cymdeithasol** | Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn defnyddio mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Clirio – cyhoeddi Tachwedd 2022. | Do – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |
| **Meithrin Cydnerthedd Cymdeithasol a Hunanddibyniaeth** | Adolygu sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Drafftio'r adroddiad. | Do – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |
| **Diogelwch adeiladau** | Adolygiad o ba mor dda y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau dros ddiogelwch adeiladau | Medi 2022 – Awst 2023 | Cychwyn prosiect. | Do – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy– Adfywio Tir llwyd** | Adolygu sut mae awdurdodau lleol yn hybu ac yn galluogi gwell defnydd o anheddau annomestig gwag a safleoedd tir llwyd | Hydref 2022 – Medi 2023 | Datblygu'r prosiect. | Do – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor |
| **Cyd-bwyllgorau Corfforedig** | Asesu cynnydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth ddatblygu eu trefniadau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithio rhanbarthol. | Medi 2022 – Ionawr 2023 | Paratoi gwaith maes. | Ydym – Rydym yn archwilio safbwynt y Cyngor trwy ein cyfarfodydd cyswllt arferol.<br>Mae'r gwaith maes yn cynnwys cyfweliadau gyda'r prif weithredwr, cyfarwyddwr cyllid a chadeirydd pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. |

## Estyn

| Gwaith arfaethedig Estyn 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol** | Gwnaeth Estyn archwilio gwasanaethau addysg llywodraeth leol Ynys Môn ac Abertawe yn ystod tymor yr haf. Cafodd yr adroddiadau eu cyhoeddi ym mis Awst a dechrau Medi. Fe wnaeth Estyn gynnal cynhadledd gwella ôl-arolygu yn Nhorfaen ym mis Medi a bydd yn monitro awdurdod lleol Sir Benfro ddechrau Mis Hydref. Mae Estyn wedi diweddaru'r canllawiau arolygu er mwyn adlewyrchu mwy o bwyslais ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac annhegwch ac i wneud mân newidiadau mewn ymateb i adborth arolygiadau yn 2021-22. | Adolygiad o'r canllaw arolygu – Gorffennaf. Cyhoeddwyd ar y wefan Medi 1. | Amh. |
| **Adolygiad thematig Diwygio'r Cwricwlwm** | Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn i Estyn adolygu gwasanaethau gwella ysgolion y de-orllewin. | Casglu tystiolaeth ym mis Mehefin/Gorffennaf – cyflwyno canfyddiadau i Lywodraeth Cymru ym mis Medi. | Amh. |

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen 2022-23**<br><br>**Gwaith ar y cyd** | Rydym yn parhau i brofi a gwerthuso ein dull wedi'i adfywio – gan gynnwys gwiriadau sicrwydd, gwiriadau gwella, ac arolygiadau gwerthuso perfformiad (PEIs). Bydd hyn yn arwain at fframwaith gweithredu diwygiedig ar gyfer archwilio a chod ymarfer diwygiedig.<br><br>Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid, gan rannu gwybodaeth a dealltwriaeth gan gynnwys cwblhau adolygiadau ar y cyd.<br><br>Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar y cyd ag AGIC ar adolygiad cenedlaethol o'r llwybr strôc ac archwiliadau CMHT. | Ebrill 2022 i Fawrth 2023<br><br>Cyfredol | Ar waith<br><br>Ar waith |
| **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021-22** | Yn dilyn cyhoeddi adroddiad 2020-21, mae cynllunio ar y gweill ar gyfer cadarnhau dyddiad cyhoeddi'r adroddiad nesaf. | Cyhoeddi i'w gadarnhau | Drafftio/casglu data. |
| **Cyfarfod blynyddol gyda Chyfarwyddwyr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol** | Bydd AGC yn cyfarfod â'r holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023 | Cynllunio |

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy'n destun rhag-achosion yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** | Diben yr adolygiad<br><br>Darparu gwaith craffu allanol, sicrwydd a hyrwyddo gwelliant o ran ansawdd ymarfer mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion amlinelliad cyfraith cyhoeddus.<br><br>Ystyried i ba raddau mae ymarfer wedi symud ymlaen ers cyhoeddi ‘Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy’n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus’ gan AGC a chyhoeddi Adroddiad gweithgor Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2021 gan gynnwys arweiniad i arfer gorau. | Medi 2022 | Cynllunio/ arolygu |
| **Trefniadau Cyd-arolygiad Diogelu Plant** | Dull traws-arolygiaeth. Meysydd i'w penderfynu. Byddwn yn cwblhau pedwar arolygiad ar y cyd aml-asiantaeth arall.<br><br>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol tuag at ddiwedd 2023. | Hydref 2022 – Gwanwyn 2023 | Cynllunio |

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Gwiriad Sicrwydd Cafcass** | Bydd AGC yn parhau i ddatblygu ei dull o arolygu ac adolygu Cafcass Cymru. Rydym wedi cyhoeddi ei lythyr gwirio sicrwydd cyntaf.<br><br>Byddwn yn gwerthuso ein dull gweithredu a byddwn yn ymgynghori ar ein dull diwygiedig ddiwedd 2022. Bydd hyn yn arwain at fframwaith gweithredu diwygiedig i'w harchwilio a'r cod ymarfer. | Medi – Rhagfyr 2022 | Cynllunio |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers Ionawr 2022

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio? | Medi 2022 |
| Llywodraeth Cymru – pennu amcanion llesiant | Medi 2022 |
| Cynllunio a rheoli’r gweithlu gan Lywodraeth Cymru | Medi 2022 |
| Offeryn Data Cyllid GIG Cymru – hyd at Fawrth 2022 | Awst 2022 |

| **Teitl yr adroddiad** | **Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad** |
|---|---|
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 Adroddiad Tystiolaeth | Awst 2022 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 | Gorffennaf 2022 |
| Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru | Gorffennaf 2022 |
| Cronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Gorffennaf 2022 |
| System Wybodaeth Gofal yn y Gymuned Cymru – diweddariad – diweddariad | Gorffennaf 2022 |
| Mynd i'r afael â'r Ôl-groniad Gofal Arfaethedig yng Nghymru – ac offeryn data amseroedd aros | Mai 2022 |
| Y Cwricwlwm newydd i Gymru | Mai 2022 |
| Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwebaeth | Ebrill 2022 |
| Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion | Ebrill 2022 |
| Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Chwefror 2022 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys (gan gynnwys offeryn data) | Ionawr 2022 |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith ar y gweill/cynlluniedig)[1]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Sylwebaeth cyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21[2] | Medi/Hydref 2022 |
| Trefniadau ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol | Hydref 2022 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol (adroddiad cryno) | Hydref 2022 |
| Gwaith dilynol ar seibrgadernid (dysgu o ymosodiadau seibr) | Hydref 2022 |
| Rheoli perygl llifogydd | Tachwedd 2022 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i gyfathrebu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn i ni allu ymateb i ddatblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru a meysydd sydd o ddiddordeb posib i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Ar 22 Medi, cyhoeddwyd erthygl i'n gwefan yn rhoi diweddariad am ddatblygiad rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol yn dilyn ein hymgynghoriad yng ngwanwyn 2022. Byddwn ni'n dod â pheth gwaith newydd ychwanegol i'n rhaglen yn ystod gweddill 2022-23.

[2] I gynnwys sylwebaeth ar faterion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y cyfrifon ynghylch taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol a chymorth busnes COVID-19.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Gwasanaethau orthopedig | Tachwedd 2022 |
| Llywodraethu ansawdd yn y GIG | Tachwedd 2022 |
| Cynhwysiant digidol | Tachwedd/Rhagfyr 2022 |
| Tai fforddiadwy | I'w gadarnhau |

## Digwyddiadau ac adnoddau Cyfnewid Arfer Da

| Teitl | Dolen i'r adnodd |
|---|---|
| Mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru: ymateb i'r her – bydd y digwyddiad dysgu a rennir hwn yn dod â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth am sut gall sefydliadau ymateb i'r heriau a achosir gan dlodi. Byddwn yn rhannu enghreifftiau o ddulliau sy'n cael eu cymryd gan sefydliadau yng Nghymru a ledled y DU. | Mynd i'r Afael â Thlodi: Digwyddiad Caerdydd<br><br>Mynd i'r Afael â Thlodi: Digwyddiad Conwy |
| Darpariaeth Taliadau Uniongyrchol – gweminar sy'n trafod ein hadroddiad ar ddarpariaeth taliadau uniongyrchol a sut y gallant fod yn rhan allweddol wrth weithredu egwyddorion Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Recordiad gweminar Darpariaeth Taliadau Uniongyrchol |

| Teitl | Dolen i’r adnodd |
|---|---|
| Ymateb i’r Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru – gweminar yn trafod canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'n hadolygiad sylfaenol o drefniadau cyrff cyhoeddus i ymateb i dargedau lleihau carbon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030. | |
| Safbwyntiau Covid – cyfres o sgyrsiau wedi'u recordio yn dysgu sut mae sefydliadau wedi addasu i'r cyfnod estynedig o ansicrwydd yn dilyn cyfnod cychwynnol argyfwng COVID. | Safbwyntiau Covid: Ymgysylltu a Chyfathrebu |

## Blogiau Diweddar Archwilio Cymru

| Teitl | Cyhoeddiad |
|---|---|
| Costau byw a rhoi'r fidog i gadw | 21 Medi 2022 |
| Mae pethau’n poethi i fynd i’r afael â Newid Hinsawdd | 18 Awst 2022 |
| Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru | 15 Mehefin 2022 |
| Gofal Heb ei Drefnu yng Nghymru – System o dan bwysau gwirioneddol. | 21 Ebrill 2022 |
| Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | 18 Chwefror 2022 |
| Seibergadernid – blwyddyn ymlaen | 9 Chwefror 2022 |

| Teitl | Cyhoeddiad |
|---|---|
| Helpu i adrodd y stori drwy gyfrwng rifau (Offeryn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol) | 3 Chwefror 2022 |
| Galwad am wybodaeth gliriach ynglŷn â gwariant ar newid yn yr hinsawdd | 2 Chwefror 2022 |
| Y gweithredoedd tu ôl i'r geiriau (adeiladu gwytnwch cymdeithasol a hunanddibyniaeth mewn dinasyddion a chymunedau) | 14 Ionawr 2022 |